


Rheoli Argyfwng Cyllið.

Awgrymiadau ar gyfer Busnesau Bwyd a Diod

Bydd llawer o fusnesau ar ryw adeg, ac am amryw resymau, yn wynebu argyfwng llif arian. Rydym wedi nodi rhai awgrymiadau a allai fod yn ddefnyddiol i chi.



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales



EICH CWESTIYNAU WEDI EU HATEB

Yn yr amseroedd digynsail hyn, mae llawer o fusnesau bwyd a diod yn wynebu pwysau enfawr ar eu llif arian o ganlyniad uniongyrchol i effaith Covid-19.

Mae rhai camau uniongyrchol y gall busnesau eu cymryd i gael rheolaeth ar eu llif arian. Nid yw'r rhain yn rhestr derfynol, ond maent wedi'u hanelu at helpu busnesau i feddwl trwy'r camau nesaf

Rheoli Eich Arian.

BYDDWCH YN STRATEGOL

Mae'n hollbwysig cadw gafael ar eich arian neu ei reoli; nid ydym yn golygu arian parod ond balans eich arian yn eich cyfrifon banc yn hytrach na yng ngofal eich cwsmeriaid, cyflenwyr neu ar glo mewn asedau pan allai fod yn gweithio i chi:

Cwblhewch ragolwg llif arian dyddiol i sicrhau eich bod chi'n gwybod pa arian sy'n dod i mewn a beth sy'n rhaid mynd allan dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf. Bydd y mwyafrif o fanciau yn anfon balans dyddiol trwy ap ffôn

Stopiwch bob debyd uniongyrchol; cyflwynwch system lle mae'n rhaid i o leiaf dau berson lofnodi pob anfoneb

Symudwch i dalu ar ddatganiadau, fel nad ydych chi'n colli allan ar nodiadau credyd sy'n ddyledus i chi ac mae'n haws cysoni anfonebau

Sicrhewch fod eich TAW yn gyfredol fel y gellir ei hawlio a sicrhewch eich bod wedi nodi yr holl dderbynebau, anfonebau ac arian

Os nad oes gennych system gyfrifo ddigidol (Xero, Quickbooks neu Sage) mynnwch un gan y bydd yn eich helpu i gyfrifo a hawlio pethau'n effeithlon. Mae'r systemau cyfrifo hyn yn eich helpu i reoli arian trwy ddweud wrthyh pa anfonebau sy'n ddyledus

Siaradwch â phobl.

Os ydych chi'n brin o arian a bod gennych filiau heb eu talu, peidiwch ag anwybyddu pobl sy'n eich erlid am daliad. Siaradwch â nhw ac esboniwch eich sefyllfa. Os gallwch chi, cynigiwch setlo rhywfaint o'r ddyled a chytuno pryd mae'r gweddill yn dod. Efallai y byddan nhw'n rhoi mwy o le a chefnogaeth i chi. Os anwybyddwch nhw, byddant yn tybio'r gwaethaf a gallent weithredu yn unol â hynny. Os nad yw rhywun wedi eich talu, rhowch alwad iddynt, gofynnwch beth allwch chi ei wneud i helpu, ond yna barnwch a ydych chi am eu cadw neu dderbyn y colledion posib.

Sicrhewch fod eich anfonebau yn gyfreithiol ac yn orfodadwy: defnyddiwch dempledi o ffynonellau ag enw da neu o fewn eich system gyfrifo.

Sicrhewch fod TAW a rhifau cofrestredig cwmnïau yn glir fel nad oes anghydfod.

Mae'n werth gwneud yn siwr fod gennych lythyrau dilys i fynd ar ôl taliadau am anfonebau neu i amddiffyn yn erbyn hawliadau am dal, felly mae defnyddio templedi o ffynhonnell gyfreithiol yn helpu.

Defnyddiwch rif archeb / archebion prynu os yw'n briodol fel na all pobl osgoi eich talu am resymau technegol.

Cofiwch y rheoliadau gwerthu o bell os ydych chi'n gwerthu ar-lein, rhag ofn eich bod chi'n cam-ddisgrifio ac yn colli gwerthiannau.

Cyngor Cyfreithiol.

Gwelliannau cynhyrchiant.

Defnyddiwch linellau cynhyrchu a sifftiau gwaith yn iawn – peidiwch â rhedeg cymaint neu mor aml os nad oes angen i chi wneud hynny. Mae'n fwy effeithlon rhedeg llinell lawn. Peidiwch â chael eich temptio i gadw'n brysur yn unig. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae gennych chi gynhyrchion gyda oes silff a allai fod yn fyr. Yn aml mae gan eich cynhwysion oes sillf hirach na'ch cynhyrchion.

Efallai y bydd nawr yn amser gwyh i wneud y gwaith cynnal a chadw arfaethedig, glanhau dwfn, hyfforddiant ar HACCP a Diogelwch Bwyd. Neu ail-gynllunio neu ail-wampio'r ardaloedd cynhyrchu.



Mae Gwybodaeth yw Bwer.

Er cymaint tentasiwn yw dweud ie wrth bob darpar gwsmer newydd, cymerwch amser i wneud rhywfaint o ymchwil. Dechreuwch gyda synnwyr cyffredin. Ers pryd maen nhw wedi masnachu? A allwch chi ddod o hyd i'w cyfrifon yn Nhŷ'r Cwmnïau? Pa mor dda ydych chi'n eu hadnabod, a allwch chi ofyn i rywun sy'n eu hadnabod? Gofynnwch iddynt lenwi ffurflen gyda thystlythyrau ac e-bostio'r canolwyr. Gadewch iddyn nhw weld eich telerau ac amodau fel eu bod nhw'n gwybod sail y gwerthiant a'r cyfnod i dalu ynddo. Dylai'r gwerthiant cyntaf fod ar anfoneb profforma, felly gyda thaliad ymlaen llaw.



Yn y tymor hwy.

Ar ôl i chi fynd trwy unrhyw argyfwng llif arian, meddyliwch am eich cwsmeriaid yn fwy strategol i weithio allan pa rai yw'ch rhai gorau. Defnyddiwch eich 'siart cyfrifon' neu godau cost i nodi'r holl gostau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â gwerthiannau. Ydych chi'n gwybod eich elw gros ar bob cynnyrch – yr elw gros yw swm y gwerthu llai y costau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gwerthiannau hynny. Ydych chi'n gwybod o ba rai o'ch cwsmeriaid rydych chi'n gwneud elw ac sy'n rhan o'ch dyfodol a pha rai sy'n amhroffidiol ac o bosib yn ormod o drafferth?

Nawr yw'r amser i benderfynu pwy sydd yn eich dyfodol.

Rhestr wirio Rheoli Arian Paroð.

Sicrhewch eich bod yn gwybod eich balans banc dyddiol a'ch rhagolwg arianol

☐

Stopiwch bob debyd uniongyrchol / gwariant fel eich bod yn gwirio ac ail-wyrio'r holl drafodion

☐

Defnyddiwch system cyfrifo digidol i sicrhau mai chi sy'n rheoli TAW a PAYE

☐

Adolygu templeddau anfonebau a llythyrau rheoli credyd fel eu bod yn gyfreithiol ac yn effeithiol

☐

Gwybod pa gynhyrchion a chwsmeriaid sy'n broffidiol ac atal y rhai nad ydyn nhw

☐

Peidiwch â gwneud cynnyrch oni bai bod gennych gwsmer a fydd yn talu amdano

☐



Cadwch mewn cysylltiad.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth y llywodraeth mewn ymateb i argyfwng Covid-19, ewch i:

<https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy>

Os hoffech gael sgwrs gyfrinachol am sut i reoli'ch llif arian trwy'r cyfnod hwn o ansicrwydd, e-bostiwch:

bwyd-foodebic-innovation.com